**Rhif: WG33674**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Deddf yr Economi Ddigidol

Rhestr arfaethedig o gyrff cyhoeddus sy'n rhannu data yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 5 Chwefror 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Deddf yr Economi Ddigidol (2017) yn cyflwyno p werau rhannu gwybodaeth a data newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn caniatáu iddynt wella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir a lleihau twyll a dyled yn erbyn y sector cyhoeddus. Os yw corff cyhoeddus am rannu gwybodaeth, mae angen iddo gael ei nodi yn y ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth y DU yn paratoi i amlinellu pedwar amcan ar gyfer y pwerau darparu gwasanaethau cyhoeddus - anfanteision amryfal, ail-diwnio setiau teledu, tlodi tanwydd a thlodi dŵr. Mae angen i'r llywodraethau datganoledig enwi'r cyrff datganoledig y maent yn dymuno iddynt allu defnyddio'r amcanion newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r pwerau dyled a thwyll. Mae angen iddynt hefyd hysbysu Llywodraeth y DU ynghylch pa un o'r amcanion uchod y dylid ei ddyrannu'r i'r cyrff datganoledig amrywiol i'w galluogi i rannu data er mwyn cefnogi'r amcanion hynny.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y rhestr arfaethedig o gyrff cyhoeddus (a chyrff sy'n darparu gwasanaethau i gyrff cyhoeddus) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu henwi, ynghyd â barn ar amcanion ar gyfer rhannu data y gallai Llywodraeth Cymru eu gosod ar gyfer Cymru yn y dyfodol. |
| **Sut i ymateb** | Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor ar gyfer ymatebion am wyth wythnos, yn hytrach na'r 12 wythnos arferol ar gyfer ymgynghoriadau safonol. Hoffem allu defnyddio'r amcanion a nodir yn rheoliadau Llywodraeth y DU, y disgwylir iddynt gael eu pennu yn y Senedd yn gynnar y flwyddyn nesaf. Er mwyn caniatáu i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r pwerau rhannu data newydd, bydd angen i ni ddarparu rhestr gadarn o gyrff cyhoeddus yng Nghymru cyn y dyddiad hwnnw. Yn ogystal, mae'r ymgynghoriad hwn yn gysylltiedig â maes deddfu penodol iawn, ac yn ymwneud â grŵp penodol o gyrff cyhoeddus. .<br><br>Croesewir yr holl ymatebion gan randdeiliaid ar draws Cymru a gweddill y DU.<br><br>Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 5 Chwefror 2018, a gallwch ymateb drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:<br><br>Ar-lein: Cwblhewch yr offer ymateb ar-lein, sydd ar gael yma: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/deddf-yr-economi-ddigidol-2017-rhestr-or-cyrff-yng-nghymru-syn-rhannu-data.<br><br>E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon a’i hanfon trwy e-bost at: |

| | |
|---|---|
| | blogdigidoladata@llyw.cymru<br>Cofiwch gynnwys 'Ymgynghoriad yr Economi Ddigidol – WG33764 yn y llinell bwnc.<br><br>Post: Atebwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i:<br><br>Ymgynghoriad yr Economi Ddigidol<br>Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Deddf yr Economi Ddigidol (2017)<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar godau ymarfer a rheoliadau rhannu data<br><br>Papur Ofcom ynghylch aildiwnio setiau teledu<br><br>Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o ddata iechyd a gofal |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>E-bost: OfficeoftheChiefDigitalOfficer@gov.wales<br><br>Rhif ffôn: Anna Bartlett-Avery 03000 250080 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn |

neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

## Cyflwyniad a chefndir

1. Derbyniodd Deddf yr Economi Ddigidol Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2017. Mae Rhan 5 y Ddeddf newydd yn cyflwyno darpariaethau rhannu gwybodaeth a data newydd i helpu i gefnogi a gwella'r modd y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd ledled y wlad ac i leihau twyll a dyled yn erbyn y sector cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn nodi'r cyrff sydd heb eu datganoli a'r cyrff cyhoeddus yn Lloegr a fydd yn gallu defnyddio'r pwerau rhannu data newydd.

2. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r llywodraethau datganoledig, bennu amcanion penodol ar gyfer rhannu data, ac enwi'r unigolion a'r sefydliadau sy'n gallu defnyddio'r pwerau rhannu data yn y Ddeddf (mae rhestr o'r cyrff heb eu datganoli wedi'i nodi eisoes yn yr atodlenni i'r Ddeddf).

3. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ynghylch rheoliadau'r drafft yn ddiweddar, sy'n amlinellu pedwar amcan penodol ar gyfer rhannu data o dan ddarpariaethau darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r cyrff penodol, heb eu datganoli, sy'n gallu defnyddio'r pwerau hyn. Mae'r pedwar amcan fel a ganlyn: Anfanteision amryfal, aildiwnio setiau teledu, tlodi tanwydd, a thlodi dŵr. Gellir defnyddio gwybodaeth bersonol a ddatgelir gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 35 i 39 ond at y diben y cafodd ei datgelu, ac ni chaiff ei datgelu ymhellach (yn amodol ar eithriadau penodol, a amlinellir yn adrannau 40 a 41 y Ddeddf).

4. Hoffai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau hyn ledled sector cyhoeddus Cymru. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni enwi'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig a fyddai'n gallu defnyddio pwerau rhannu data Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cyrff datganoledig yng Nghymru yr hoffem eu henwi yn y ddeddfwriaeth i'w galluogi i ddefnyddio'r pwerau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus ac mewn perthynas â dyledion a thwyll. Rydym hefyd am gael eich safbwyntiau ynghylch pa amcanion y gallai Llywodraeth Cymru eu cynnig yn y dyfodol i wella’r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Y sefyllfa bresennol

6. Mae rhannu data yn well yn galluogi gwell canlyniadau i ddinasyddion a rhagor o effeithiolrwydd ac yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r broses o greu polisïau a’u gwerthuso. Fodd bynnag, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus, gan gynnwys dryswch neu gamddehongli'r dirwedd gyfreithiol, wedi'u nodi fel rhwystrau rhag darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol.

7. Mae angen sylfaen statudol i rannu gwybodaeth ar gyrff cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid oes un darn o ddeddfwriaeth sy'n grymuso cyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth er budd darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn lle hynny, mae angen i gyrff cyhoeddus ddibynnu ar ystod o bwerau gwahanol, a gall rhai ohonynt fod yn gyffredinol eu natur ac yn anaddas i'w diben mewn gwirionedd. Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cynnig cyfle i roi sylw i'r broblem hon.

8. Bydd hyrwyddo rhannu data rhwng sefydliadau ar draws y DU, gan gynnwys rhwng asiantaethau datganoledig a rhai heb eu datganoli, yn fuddiol i Gymru, ac mae deddfwriaeth gyson yn lleihau'r risg o rwystrau diangen yn cael eu rhoi ar waith.

9. Mae dyletswydd i gyrff cyhoeddus ddiogelu'r wybodaeth bersonol sydd ganddynt, ei rhannu mewn modd sicr a diogel, a dweud wrth y bobl pan fyddant yn rhannu eu gwybodaeth beth maent yn ei gwneud â hi. Mae dyletswydd hefyd iddynt ddarparu gwasanaethau effeithiol, cydgysylltiedig. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio'r dyletswyddau hyn, gan nodi cydweithio ac atal fel dwy ffordd allweddol y dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn gweithio.

10. Dylid nodi bod pwerau i rannu gwybodaeth yn wahanol i rwymedigaethau cyrff cyhoeddus i ddiogelu data a datgelu gwybodaeth o dan y drefn diogelu data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

11. Hoffem i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (a rhai cyrff sy'n darparu gwasanaethau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru) allu defnyddio'r pwerau newydd i rannu data â'i gilydd mewn perthynas â phedwar amcan Llywodraeth y DU, ac rydym wedi nodi rhestr o unigolion a sefydliadau yr ydym o'r farn y byddent yn cefnogi pob amcan yn y ffordd orau. Hoffem hefyd i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru allu rhannu a chael gwybodaeth gan gyflenwyr nwy a thrydan, ac ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, at ddibenion helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd neu ddŵr.

12. Hoffem hefyd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (ynghyd â chyrff penodol sy'n darparu gwasanaethau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru) allu defnyddio'r pwerau newydd i rannu data mewn perthynas ag achosion lle mae arian yn ddyledus i’r sector cyhoeddus neu mae twyll wedi cael ei ymarfer yn ei erbyn. Rydym wedi nodi set o unigolion a chyrff cyhoeddus datganoledig yr hoffem iddynt allu defnyddio'r pwerau newydd.

13. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn o ran p'un a yw'r cyrff a nodwyd gennym yw'r rhai cywir ar gyfer pob diben, a ph'un a oes unrhyw gyrff eraill y gallem eu cynnwys. Byddem hefyd yn croesawu eich safbwyntiau o ran p'un a oes amcanion darparu gwasanaethau cyhoeddus y gallem eu henwi yn y dyfodol, a pha gyrff cyhoeddus y gallem eu henwi i gefnogi'r amcanion hynny.

## Y camau nesaf

14. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a dadansoddiad o'ch ymatebion, byddwn yn cwblhau rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a fydd wedyn yn cael ei chynnwys yn yr atodlenni i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 trwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyrff a enwir wneud defnydd o'r pwerau rhannu data o dan yr amcanion anfanteision amryfal, aildiwnio setiau teledu, tlodi tanwydd a thlodi dŵr a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Datgelu Gwybodaeth) drafft, a'r pwerau yn y Ddeddf i rannu gwybodaeth gyda chyflenwyr nwy a thrydan ac

ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, a derbyn gwybodaeth ganddynt. Bydd cyrff cyhoeddus a enwir hefyd yn gallu rhannu data at ddibenion cymryd camau gweithredu mewn achosion lle mae arian yn ddyledus i'r sector cyhoeddus neu mae twyll wedi cael ei ymarfer yn ei erbyn. Bydd rheoliadau Gweinidogion Cymru yn cael eu gosod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cynigion Manwl

### Pwerau Dyled a Thwyll

1. Mae Rhan 5 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn pennu pwerau i gyrff cyhoeddus a enwir rannu gwybodaeth â'i gilydd at ddibenion cymryd camau sy'n ymwneud â dyledion sy'n ddyledus i gorff cyhoeddus, megis nodi dyled, neu gymryd camau gweithredu i gasglu arian sy'n ddyledus (gan gynnwys achos llys lle bo'n briodol). Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i gyrff cyhoeddus rannu gwybodaeth at ddibenion atal, nodi, ymchwilio ac erlyn achosion o dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

2. Mae Atodiad B yn dangos y cyrff cyhoeddus yng Nghymru yr hoffem eu henwi yn ein rheoliadau cychwynnol fel y rhai sy'n gallu rhannu data o dan y pwerau newydd mewn achosion o ddyled neu dwyll. Gall Gweinidogion Cymru ychwanegu hefyd at y rhestr hon yn y dyfodol.

**Cwestiwn 1**
Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i roi pwerau rhannu data ar gyfer twyll neu ddyled iddynt?

**Cwestiwn 2**
A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys? Nodwch p’un a fyddai angen eu cynnwys at ddibenion atal twyll, neu nodi a rheoli dyled.

### Yr Amcan Anfanteision Amryfal

3. Diben yr amcan hwn yw gwella’r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus i unigolion a/neu aelwydydd y mae mwy nag un anfantais yn effeithio arnynt, megis anabledd, diweithdra, neu gam-drin domestig. Ceir rhestr lawn o'r anfanteision y gellid eu hystyried yn Atodiad A. Bydd y cyrff a nodir yn gallu rhannu gwybodaeth gyda chyrff penodol eraill i sicrhau bod unigolion yr effeithir arnynt yn cael y cymorth sydd ei angen.

4. Mae Atodiad B yn dangos yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yr ydym yn cynnig y dylent allu rhannu data i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell i unigolion a theuluoedd sy'n profi anfanteision amryfal.

**Cwestiwn 3**
Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan anfanteision amryfal?

**Cwestiwn 4**
A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan anfanteision amryfal?

**Yr Amcan Aildiwnio Setiau Teledu**

5. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd rhan o'r sbectrwm darlledu a ddefnyddir ar hyn o bryd gan ddarlledwyr teledu yn cael ei chlirio i'w defnyddio gan wasanaethau band eang symudol. Bydd angen aildiwnio'r rhan fwyaf o setiau teledu oherwydd hyn. Ar gyfer y rhan fwyaf o aelwydydd, bydd hwn yn newid syml y byddant yn gyfarwydd ag ef. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai aelwydydd i'w helpu i wneud y newid, neu offer erial newydd o ganlyniad. Efallai y bydd newidiadau tebyg yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynorthwyo aelwydydd sy'n agored i niwed sydd wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn.

6. Cynlluniwyd yr amcan hwn er mwyn caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol rannu gwybodaeth sy'n helpu i nodi a chysylltu ag unigolion ac aelwydydd y gallent fod yn gymwys i dderbyn cymorth o dan gynllun aildiwnio setiau teledu.

7. Mae Atodiad B yn dangos y cyrff cyhoeddus arfaethedig yng Nghymru a fydd yn gallu rhannu data personol i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus i unigolion neu aelwydydd yng Nghymru y gallent fod yn gymwys i dderbyn cymorth o dan gynllun aildiwnio setiau teledu.

**Cwestiwn 5**
Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan aildiwnio setiau teledu?

**Cwestiwn 6**
A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan ail-diwnio setiau teledu?

**Yr Amcan Tlodi Tanwydd**

8. Mae Adran 36 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn caniatáu i gyrff cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth gyda chyflenwyr nwy a thrydan lle maent yn nodi bod unigolyn neu aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd a gall fod yn gymwys i gael cymorth â'i gostau tanwydd. Mae unigolyn neu gartref yn byw mewn tlodi tanwydd os yw ar incwm is ac ni all gadw ei gartref yn gynnes am gost resymol. Mae angen i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda'r nod y caiff ei defnyddio mewn cysylltiad â chynlluniau cymorth penodol.

9. Mae Adran 37 y Ddeddf yn darparu pŵer cyfatebol i gyflenwyr nwy a thrydan ddatgelu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus penodedig at ddibenion cynorthwyo pobl mewn tlodi tanwydd.

10. Bydd yr Amcan Tlodi Tanwydd hefyd yn cael ei ychwanegu fel amcan o dan y Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Datgelu Gwybodaeth) arfaethedig. Bydd hyn yn caniatáu i gyrff cyhoeddus penodol rannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus penodedig eraill i gynorthwyo pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Ceir dolen at y rheoliadau drafft hyn yn Atodiad A.

11. Mae Atodiad B yn dangos y cyrff cyhoeddus arfaethedig yng Nghymru a fydd yn gallu rhannu data personol â'i gilydd, a rhannu gwybodaeth â chyflenwyr trydan a nwy, a derbyn gwybodaeth ganddynt, er mwyn cefnogi'r amcan tlodi tanwydd.

**Cwestiwn 7**
Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan tlodi tanwydd?

**Cwestiwn 8**
A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan tlodi tanwydd?

**Yr Amcan Tlodi Dŵr**

12. Mae Adran 38 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn caniatáu i gyrff cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth gyda darparwyr dŵr a charthffosiaeth lle maent yn nodi bod unigolyn neu aelwyd yn byw mewn tlodi dŵr a gall fod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol. Mae unigolyn neu aelwyd yn byw mewn tlodi dŵr os yw ar incwm is ac yn byw mewn cartref nad oes modd ei gyflenwi â gwasanaethau dŵr neu garthffosiaeth am gost resymol. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei datgelu gyda'r bwriad y caiff ei defnyddio gan yr ymgymerwr mewn cysylltiad â chynlluniau codi tâl penodol.

13. Mae Adran 39 yn darparu pŵer cyfatebol i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddatgelu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus penodedig i gynorthwyo pobl sy'n byw mewn tlodi dŵr.

14. Bydd yr Amcan Tlodi Dŵr yn cael ei ychwanegu hefyd fel amcan o dan y Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Datgelu Gwybodaeth) arfaethedig (2017) i ganiatáu i gyrff cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus penodol eraill i gynorthwyo pobl sy'n byw mewn tlodi dŵr. Mae dolen i'r rheoliadau hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

15. Mae Atodiad B yn rhestru'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru yr ydym yn cynnig y byddant yn gallu rhannu data personol â'i gilydd, a rhannu gwybodaeth â chyflenwyr dŵr a charthffosiaeth, a derbyn gwybodaeth ganddynt, er mwyn cefnogi'r amcan tlodi dŵr.

**Cwestiwn 9**
Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan tlodi dŵr?

**Cwestiwn 10**
A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan tlodi dŵr?

**Amcanion Cymru yn unig**

16. Mae Llywodraeth Cymru yn gallu pennu amcanion penodol ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn meysydd sydd o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol, ac enwi cyrff cyhoeddus yng Nghymru a fyddai'n cefnogi'r rhain. Gellir

hefyd gosod amcanion sy'n cynnwys meysydd heb eu datganoli, neu y byddai angen cyrff heb eu datganoli er mwyn rhannu gwybodaeth, gyda chymeradwyaeth gan weinidog (neu weinidogion) perthnasol y DU.

17. Mae Adran 35 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn amlinellu rhai paramedrau ar gyfer nodi amcanion. Yn yr un modd, mae Adran 43 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cod ymarfer, y mae Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft ohono'n ddiweddar. Mae angen i amcanion fod â'r bwriad i gyflawni gwelliannau go iawn i wasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd, a rhaid iddynt dargedu mathau penodol o unigolion neu gartrefi, fel y rhai sy'n gadael gofal neu gyn-droseddwyr. Ni fyddai amcanion ehangach sy'n canolbwyntio ar gymuned ehangach yn dderbyniol. Mae'n rhaid i amcanion hefyd gyflawni buddion cadarnhaol a gwella lles. Ni allant fod yn gosbol, megis nodi unigolion sy'n derbyn budd-daliadau lles mewn camgymeriad.

18. Hoffem ddeall pa fathau o ddefnyddwyr gwasanaeth y gallem ddatblygu amcanion i'w cefnogi, a'r cyrff cyhoeddus a fyddai'n gallu rhannu data i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion hynny.

**Cwestiwn 11**
A oes unrhyw amcanion eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu datblygu yn y dyfodol, a beth yw'r rhwystrau presennol o ran peidio â rhannu data at y dibenion hynny?

**Cwestiwn 12**
Pa unigolion neu sefydliadau y gellid rhoi pwerau iddynt rannu data er mwyn cefnogi'r amcanion hynny?

**Cyrff Iechyd**

19. Mae cyrff iechyd yn cynnal a chadw amrywiaeth eang o ddata, o ddata sensitif iawn am unigolion i ddata nad yw'n sensitif am y ddarpariaeth o wasanaethau. Fel gyda sefydliadau eraill, mae'n hanfodol wrth reoli a rhannu data i ystyried y math o ddata sy'n cael ei drin er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei drin yn briodol.

20. Rhoddodd Gweinidogion y DU sicrwydd yn Nhŷ'r Senedd na fyddai cyrff iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion o fewn cwmpas y rheoliadau newydd.[1] O ganlyniad, ni nodwyd unrhyw gyrff iechyd yn Lloegr yn Atodlenni 4–8 Deddf yr Economi Ddigidol 2017, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud hyn.

21. Fodd bynnag, gan fod y Ddeddf yn rhoi'r gallu i'r llywodraethau datganoledig bennu amcanion datganoledig ar gyfer y pwerau darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru osod amcanion i Gymru mewn meysydd

[1] Arglwydd Keen o Elie, 2il ddiwrnod cam adroddiad yr Arglwyddi, 20 Mawrth, colofn 113
Arglwydd Ashton o Hyde, Ail Ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi, 13 Rhagfyr 2016, colofn 1230, 5ed paragraff.
Arglwydd Keen, 3ydd diwrnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, 6 Chwefror, colofn 1528.

datganoledig a fyddai'n caniatáu i gyrff sy'n gysylltiedig ag iechyd rannu'r data sydd ganddynt i helpu i gwrdd â'r amcanion hynny.

22. Rydym o'r farn fod rhannu data a gedwir gan gyrff iechyd, a chaniatáu i gyrff iechyd dderbyn data gan wasanaethau cyhoeddus eraill mewn modd diogel a moesegol, yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hintegreiddio a gallant ddarparu'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd. Rydym yn cydnabod bod pryderon dilys o ran rhannu rhai mathau o ddata gyda chyrff cyhoeddus eraill, a hoffwn fod yn dryloyw o ran ein cynigion.

23. Rydym yn cynnig cynnwys nifer fach o gyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag iechyd, megis ymddiriedolaethau'r GIG, yn y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n gallu rhannu gwybodaeth, a dangosir y rhain yn Atodiad B. Ni fydd y rhain yn gallu rhannu gwybodaeth at ddibenion yr amcanion arfaethedig gan Lywodraeth y DU, ond efallai y byddant yn gallu rhannu data at ddibenion amcanion darparu gwasanaethau cyhoeddus a bennir gan Weinidogion Cymru ar gyfer cyrff datganoledig yng Nghymru. Nid yw enwi cyrff iechyd Cymru yn y ddeddfwriaeth yn golygu y bydd yn rhaid iddynt rannu eu data, ond mae'n caniatáu iddynt wneud hynny yn y dyfodol, os ydym yn nodi y byddai hyn yn fuddiol.

24. Yn y dyfodol, wrth ddylunio amcanion ar gyfer rhannu data a fyddai'n cynnwys cyrff iechyd neu ddata a gedwir gan y cyrff hyn, byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd a'r sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod y defnydd arfaethedig o'r data yn gyfiawn ac yn dryloyw. Rydym wedi cyhoeddi [Datganiad o Fwriad] yn ddiweddar sy'n amlinellu ein bwriad o ran defnyddio data iechyd a gofal i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol a gwasanaethau effeithlon. Bydd unrhyw amcanion a ddatblygir gennym yn y dyfodol yn adlewyrchu'r bwriadau hynny, a byddwn ond yn rhannu data mewn modd sy'n gyson â'r datganiad.

25. Nid ydym yn cynnig yn ystod y cam hwn i estyn y pwerau i rannu data i gyrff iechyd at ddibenion ymdrin ag arain sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus yng Nghymru neu dwyll yn ei erbyn. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb yn eich safbwyntiau o ran p'un a ddylai cyrff iechyd allu rhannu data at y dibenion hyn ai peidio.

**Cwestiwn 13**
A ydych yn cytuno y byddai caniatáu i gyrff sy'n ymwneud ag iechyd yng Nghymru rannu data i gefnogi amcanion gwasanaethau cyhoeddus penodol yn fuddiol? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 14**
Pa fesurau diogelu y byddai angen iddynt fod ar waith er mwyn i ddata a gedwir gan gyrff iechyd gael ei rannu yng Nghymru?

**Cwestiwn 15**
Pa fathau o amcanion y gallai cyrff iechyd cyhoeddus eu cefnogi?

**Cwestiwn 16**
A ddylai cyrff iechyd allu rhannu data at ddibenion ymdrin ag arian sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus neu dwyll yn eu herbyn? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

**Y Gymraeg**

26. Nid yw'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith ar unwaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, nac am drin yr iaith ei hun mewn modd cyfartal. Bydd y newidiadau yn gwella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i unigolion a deiliaid tŷ ni waeth yr iaith a ddefnyddir, na dewisiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y gellir defnyddio data a ddarperir, a gesglir neu a rennir yn yr iaith Gymraeg yn yr un modd â data yn Saesneg, a bod dewisiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu hystyried.

27. Yn ogystal, gallai amcanion rhannu data yn y dyfodol hyrwyddo a chefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau Cymraeg gwell mewn rhai meysydd penodol.

**Cwestiwn 16**
Ym mha ffyrdd eraill y gellid defnyddio'r ddeddfwriaeth hon er mwyn hyrwyddo neu gefnogi'r Gymraeg?

**Cwestiwn 17**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynglŷn â rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus, neu ynglŷn ag unrhyw un o'r meysydd uchod?